



# Materion yn ymwneud â Rheoli Cofnodion yn Dda

Canllawiau Drafft

## Cynnwys

Cynnwys .....	2
Rhagair .....	3
Dyma beth mae cadw cofnodion da yn ei olygu .....	4
Adran Un - Creu Cofnodion .....	6
Adran Dau - Rheoli Cofnodion .....	9
Hanfodion cadw cofnodion da .....	12
Casgliad .....	14
Amdanom ni .....	15
Darllen Pellach .....	17

## Rhagair

Fe wyddom fod y gwaith o ddarparu gwasanaethau i aelodau'r cyhoedd yn gallu bod yn brysur ac yn heriol iawn. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol nad yw'r arfer o gadw cofnodion da mewn llawer o sefydliadau yn cael y flaenoriaeth y mae'n ei haeddu. Ni ellir pwysleisio digon mor bwysig yw cadw cofnodion da. Mae cofnodion yn darparu tystiolaeth o weithgaredd. Gallant helpu i egluro pam y gwnaed penderfyniad, pwy a'i gwnaeth a phryd. Maent yn angenrheidiol i greu hyder mewn unrhyw broses benderfynu, i hyrwyddo atebolrwydd a thryloywder, ac i alluogi eraill i wirio'r hyn a wnaed. Mae cadw cofnodion da hefyd yn hanfodol ar gyfer cof corfforaethol.

Mae rheoli cofnodion yn dda hefyd yn cynorthwyo awdurdodau lleol i gydymffurfio'n llawn â'u rhwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth hawliau gwybodaeth.

Nid yw'r cyhoeddiad hwn yn rhoi arweiniad manwl ar sut i greu cofnodion - dylid ei gynnwys ym mholisiâu a gweithdrefnau sefydliadau. Nod y canllaw hwn yw dangos pwysigrwydd cadw cofnodion o ansawdd da. Ei nod yw dangos pam mae'r diwylliant o gadw cofnodion da yn hanfodol i sector cyhoeddus ymatebol. Caiff ei gynnwys ei ffurfio o'n profiad wrth ymdrin â chwynion ac ymchwiliadau a gynhaliwyd dros nifer o flynyddoedd.

## Dyma beth mae cadw cofnodion da yn ei olygu

- Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, rheoliadol, busnes ac atebolrwydd.
- Creu cofnod ysgrifenedig o benderfyniadau a materion allweddol a drafodir mewn cyfarfodydd, sgysiau, e-byst a fformatau cyfathrebu eraill.
- Dogfennu'r rhesymau dros benderfyniadau.
- Arbed cofnodion mewn ffordd strwythuredig neu reoledig fel y gellir eu holrhain yn hawdd.
- Dilyn unrhyw bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol.

Rydym yn aml yn dod ar draws rhai enghreifftiau rhagorol o gadw cofnodion da wrth wneud ein gwaith. Rydym hefyd yn gweld canlyniadau arferion cadw cofnodion gwael. Er enghraifft, daeth ein [Hadroddiad Thematig: Colli Cyfiawnder, Colli Cofnodion a Cholli Cyfleodd](#) o hyd i broblemau sylweddol gydag ansawdd cadw cofnodion, gan gynnwys diffyg cofnodion ynghylch pwy wnaeth benderfyniadau allweddol, sut y gwnaed y penderfyniadau hynny, a beth y cytunwyd arno mewn gwirionedd.

Mae gwneud cofnodion amserol, cyflawn a chywir yn ganolog i reoli cofnodion yn dda, ond mae hefyd yn bwysig bod cofnodion yn drefnus ac yn hygyrch, ac nad ydyn nhw'n ormodol nac yn cael eu cadw'n hirach na'r hyn sydd ei angen. Rhaid defnyddio synnwyr cyffredin i sicrhau bod cofnodion synhwyrol, cywir, agored a chymesur yn cael eu cynnal. Disgwyliwn i sefydliadau fod â systemau a phrosesau rheoli cofnodion cywir ar waith, gan gynnwys eu trefniadau eu hunain ar gyfer adolygu a monitro eu cydymffurfiad eu hunain â rheoliadau, arfer da a'u gweithdrefnau.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn edrych ar ein canfyddiadau a'n hargymhellion mewn sawl achos. Mae wedi'i rannu'n ddwy adran - **Creu Cofnodion a Rheoli Cofnodion**.

Mae ein pwerau yn ein galluogi i:

- Gyhoeddi adroddiadau, gan dynnu sylw at ble mae problemau wedi digwydd.
- Argymhell newidiadau i arferion presennol.
- Sicrhau iawndal ar gyfer unigolion.

Rydym yn cydnabod y gallai ein hadroddiadau arwain at feirniadaeth gyhoeddus ehangach ar gyrff cyhoeddus, gan arwain o bosibl at ddifrodi enw da. Fodd bynnag, ein blaenoriaeth yw gwella gwasanaethau cyhoeddus Cymru, a bwriad ein hadroddiadau yw cefnogi'r nod hwnnw. Credwn, trwy dynnu sylw at yr achosion hyn, y gall sefydliadau weld mai dim ond ychydig bach o sylw sydd ar gael i ddisgyblaeth cadw cofnodion da i atal camgymeriadau tebyg rhag cael eu gwneud yn y dyfodol.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn cynnwys manylion sawl achos lle rydym wedi dod o hyd i enghreifftiau ble mae cofnodion yn cael eu rheoli'n wael. Maent yn rhoi enghreifftiau o'r hyn a all fynd o'i le ac yn ein hatgoffa i gyd bod angen rhoi sylw dyledus i reoli cofnodion da fel rhan annatod o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Gobeithio y bydd y cyhoeddiad yn ddefnyddiol i chi.

## Adran Un - Creu Cofnodion

Yng ngyd-destun gwaith, mae gwybodaeth yn cael ei chreu yn gyson. Pan fydd rhywun yn anfon e-bost, yn drafftio brîff, yn ysgrifennu adroddiad, yn ychwanegu data at daenlen, neu'n gwneud nodiadau mewn cyfarfod, mae gwybodaeth yn cael ei chreu at ddiben busnes penodol.

Nid oes angen arbed pob darn o wybodaeth fel cofnod busnes. Fodd bynnag, mae'r achosion a amlygir yma yn helpu i ddangos pa mor bwysig yw hi bod cyrff cyhoeddus yn cadw cofnodion ffurfiol o'u gweithredoedd, ac mewn perthynas â'u penderfyniadau.

Ar ei fwyaf sylfaenol, gallai'r weithred syml o gofnodi'r hyn a benderfynwyd, a pham, arbed cryn dipyn o amser ac ymdrech yn y dyfodol. Er enghraifft, nid yw'n anarferol i bobl adael cyfarfod gyda dehongliadau gwahanol o ganlyniad trafodaethau. Mae cofnod y cytunwyd arno yn helpu pawb i gael dealltwriaeth gyffredin o'r hyn a benderfynwyd, yn ogystal ag atgoffa pobl pwy sy'n gyfrifol am gyflawni gweithred neu dasg ac erbyn pryd.

Gall cofnodi penderfyniadau yn gywir ac ar y pryd hefyd helpu corff cyhoeddus i amddiffyn ei weithredoedd, a gweithredoedd ei staff, o gael eu herio. Er enghraifft, gall ddangos sut y daethpwyd i'w benderfyniad a'i fod wedi rhoi ystyriaeth lawn i ganlyniadau ei weithredoedd.

Mae diffyg cofnodion cywir hefyd yn ei gwneud hi'n anoddach argyhoeddi eraill bod corff wedi ymddwyn yn briodol. Mewn archwiliad, ymchwiliad, neu os bydd her gyfreithiol, gall fod yn anodd profi bod proses briodol wedi'i dilyn os na all y corff dan sylw ddarparu'r dogfennau perthnasol.

Yn olaf, o ystyried bod angen i wasanaethau cyhoeddus ganolbwyntio ar ddinasyddion, mae'n bwysig cydnabod y gall cadw cofnodion mewn dull nad yw'n fuddiol gael effaith ddinistriol ar ddefnyddwyr gwasanaethau, yn enwedig mewn meysydd fel iechyd neu ofal cymdeithasol. Os aiff rhywbeth o'i le, mae gwybodaeth gywir yn hanfodol i ddeall yr hyn a ddigwyddodd a pham.

O'n safbwynt ni, os yw'r cofnodion yn cael eu cadw'n dda, mae'n bosibl cael y stori lawn o'r cofnod dogfennol, yn aml heb angen holi'r unigolion cysylltiedig.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw hyn yn golygu bod angen gormod o ddogfennaeth - mae'n golygu cynnal cofnodion synhwyrol, angenrheidiol, cywir, agored a chymesur.

## **Neges allweddol**

Bob dydd, mae pobl yn y sector cyhoeddus yn gwneud penderfyniadau ynghylch sut i wario arian cyhoeddus. Gall cadw cofnodion da helpu i ddangos bod yr arian wedi cael ei wario'n ddoeth.

## **Astudiaeth achos**

Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Cyngor wedi methu â chyfathrebu'n effeithiol â theulu ynghyd â chynllunio ar gyfer symud eu mab o fod o dan ofal y gwasanaethau gofal plant i fod o dan ofal y gwasanaethau i oedolion. Canfu'r Ombwdsmon nad oedd dim cofnod bod cysylltiad wedi cael ei wneud gyda'r teulu am y 6 mis cyn yr argyfwng pan ddaeth y cyllid addysg i ben ond nad oedd darpariaeth amgen wedi'i rhoi ar waith i ddiwallu anghenion gofal cymdeithasol y person ifanc. Canfuwyd bod cadw cofnodion y Cyngor yn annigonol i alluogi staff i gyfathrebu'n glir ac yn gyson â'r teulu ynghylch y sefyllfa.

## Neges allweddol

Mae rhoi rhesymau dros benderfyniadau yn egwyddor allweddol gweinyddiaeth dda ac mae'n hanfodol ar gyfer tegwch a thryloywder. Gall cofnodion weithredu fel 'tarian' i gorff cyhoeddus amddiffyn ei weithredoedd os caiff ei herio.

### Astudiaeth achos

Gwnaeth aelod o'r teulu gŵyn i'r Ombwdsmon ynghylch perthynas oedrannus a'r ffordd yr oedd y cyngor dan sylw wedi ystyried cais yr unigolyn hwn am gymorth o ran cartref. Canfu'r Ombwdsmon fod y cyngor wedi methu â dogfennu ei ailasesiad o anghenion meddygol y perthynas yn briodol na recordio sgwrs ffôn a ystyriwyd yn ystod yr ailasesiad. Felly nid oedd yr Ombwdsmon yn gallu penderfynu a oedd yr ailasesiad wedi'i gynnal yn briodol. Roedd hefyd yn aneglur pa swyddog o'r cyngor a ddaeth i'r penderfyniad ynghylch pa fand tai ddylai fod yn berthnasol i'r unigolyn.

## Neges allweddol

Mae atebolrwydd cyrff sector cyhoeddus yn hanfodol. Rhaid i gyrff gymryd golwg gynhwysfawr ar sut maen nhw'n dogfennu gwybodaeth. Mae angen iddynt gydnabod bod gan wybodaeth werth, yn enwedig data personol, ac y gall methu â dangos gofal a sylw arwain at risgiau i hawliau a rhyddid unigolion yn ogystal ag ôl-ffeithiau, megis difrod i enw da.

### Astudiaeth achos

Cwynodd perthynas i'r Ombwdsmon fod Bwrdd Iechyd wedi colli cofnodion meddygol eu tad oedd bellach wedi marw, ac o'r herwydd, eu bod wedi colli'r cyfle i adolygu'r gofal yr oedd yn ei dderbyn. Gwnaeth hyn i'w deulu deimlo'n barhaus ansicr ynghylch a gafodd driniaeth briodol. Yn absenoldeb y cofnodion meddygol perthnasol, nid oedd yr Ombwdsmon yn gallu ystyried digonolrwydd y driniaeth glinigol a ddarparwyd. Roedd hyn yn cynrychioli anghyfiawnder sylweddol i'r teulu. Cytunodd y Bwrdd Iechyd i ymddiheuro i'r teulu am gollir cofnodion meddygol, i gadarnhau i'r teulu y byddai ymchwiliad yn cael ei gyflymu pe deuir o hyd i'r cofnodion yn y dyfodol ac y byddent yn rhoi iawndal ariannol i'r teulu i gydnabod colli cyfle i gael y gofal y cwynwyd amdano wedi'i ystyried yn annibynnol.



## Adran Dau - Rheoli Cofnodion

Dylid ystyried rheoli cofnodion yn y sector cyhoeddus fel swyddogaeth gorfforaethol graidd, yn ogystal â rhwymedigaeth statudol. Y swyddog uchaf mewn corff cyhoeddus sydd â chyfrifoldeb cyffredinol fod y corff yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau rheoli cofnodion. Felly mae'n bwysig eu bod yn ennyn diwylliant o atebolrwydd yn eu sefydliad. Mae hefyd yn golygu sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n briodol ac yn meddu ar adnoddau i gyflawni'r swyddogaethau hanfodol hyn.

Mae disgrifio gwybodaeth a chofnodion yn gywir yn caniatáu i ddefnyddwyr ddeall beth ydyn nhw, o ble y daethon nhw, beth sydd wedi digwydd iddyn nhw a'r cysylltiad sydd ganddyn nhw ag asedau gwybodaeth eraill.

Mae gwneud gwybodaeth yn hawdd ei darganfod a'i defnyddio hefyd yn cael effaith sylweddol ar effeithlonrwydd sefydliad. Mae'n hanfodol sicrhau bod gwybodaeth yn ddarganfyddadwy, yn hygyrch ac yn ddefnyddiadwy. Mae hyn yn bwysig am resymau busnes ond hefyd i gydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU a Deddf Diogelu Data 2018.

Mae datblygiadau mewn technoleg wedi arwain at newid yn y modd y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a'u cofnodi, gan arwain at gymylu'r llinellau rhwng cyfathrebu personol a chyfathrebu busnes. Mae hyn yn cyflwyno heriau wrth ddogfennu penderfyniadau, ochr yn ochr â chymhlethdodau ar gyfer cadw cofnodion a'u hygyrchedd. Fodd bynnag, mae'n werth nodi yma nad yw newidiadau mewn technoleg yn newid rhwymedigaethau hawliau gwybodaeth statudol awdurdodau cyhoeddus. Os yw galwad ffôn, ap negeseuon, e-bost neu gyfnewid negeseuon cyfryngau cymdeithasol yn ymwneud â thrafodaeth neu benderfyniad busnes allweddol, mae angen dal a rheoli'r wybodaeth yn briodol. Mae hyn yn berthnasol i gyfrifon personol yn ogystal â chyfrifon busnes.

Mae diogelwch gwybodaeth hefyd yn fater pwysig i'r sector cyhoeddus. Mae angen i sefydliadau sicrhau bod yr wybodaeth a'r cofnodion y maent yn eu creu yn cael eu sicrhau fel na all neb:

- Ymyrryd â hwy neu eu newid yn amhriodol.
- Eu dileu yn amhriodol neu eu camosod.
- Personél diawdurdod yn cael mynediad atynt.

## Neges allweddol

Mae polisïau a gweithdrefnau ar gyfer cadw cofnodion yn effeithiol yn hanfodol ond dim ond pan gânt eu cefnogi gan hyfforddiant ac arweiniad rheolaidd i staff. Dylai pob aelod o staff sy'n trin cofnodion gael hyfforddiant gorfodol wrth ddechrau eu swydd waeth beth fo'u gradd neu rôl a dylid darparu hyfforddiant gloywi yn rheolaidd.

### Astudiaeth achos

Gofynnwyd i Fwrdd Iechyd roi gwybodaeth i'r Ombwdsmon am gyfnod o 5 diwrnod sy'n berthnasol i'r gŵyn. Fodd bynnag, anfonodd dros 400 tudalen o gofnodion meddygol y claf. Gofynnodd yr Ombwdsmon i'r Bwrdd Iechyd ailanfon yr wybodaeth gan nad oedd angen y cofnodion meddygol llawn arno ac felly, cafodd wared arno'n ddiogel.

## Neges allweddol

Pan fo trydydd partïon yn ymwneud â gweinyddiaeth gyhoeddus, mae'n hanfodol bod y corff cyhoeddus yn cadw rheolaeth dros y ddogfennaeth. Dylai cyrff cyhoeddus sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw a'u rheoli mewn ffordd sy'n diogelu cyfanrwydd staff ac yn cynyddu hyder y cyhoedd yng ngallu'r sefydliad i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn briodol. Mae angen tystiolaeth ddogfennol i roi sicrwydd bod pethau wedi'u gwneud yn briodol.

### Astudiaeth achos

Cwynodd perthynas am y gofal a'r driniaeth a gafodd eu Mam yn ystod ac ar ôl triniaeth lawfeddygol. Gofynnodd yr Ombwdsmon am fynediad at gofnodion meddygol y Fam ond dywedwyd wrtho fod y cofnodion ar goll. Datgelodd y Bwrdd Iechyd eu bod wedi paratoi eu hymateb i gwynion heb gyfeirio at y cofnodion. Roedd eu hymateb i'r gŵyn yn awgrymu nad oedd tystiolaeth eu bod wedi torri dyletswydd. Gan bod y cofnodion ar goll, ni allai'r Ombwdsmon gynnal ymchwiliad llawn i'r gŵyn. Cytunodd y Bwrdd Iechyd i barhau i chwilio am y cofnodion coll ac ymrwymodd i gyflwyno proses a fyddai'n atal mater o'r fath yn digwydd eto.

## Neges allweddol

Gall cofnodion anghyflawn arwain at amheumon o gamwedd neu ymdeimlad bod gan y corff rywbeth i'w gelu.

### Astudiaeth achos

Ystyriodd yr Ombwdsmon gŵyn gan wraig am y gofal a'r driniaeth a gafodd ei diweddar ŵr pan gafodd ei dderbyn i Gartref Gofal. Roedd profiad y gŵyn yn hir ac yn llafurus gan fod y Cartref Gofal wedi darparu ymateb rhannol yn unig i'w chŵyn ac wedi methu ag egluro pam nad oedd wedi mynd i'r afael â'r materion a godwyd. Dim ond yn ddiweddarach y daeth yn amlwg bod hyn oherwydd bod y cofnodion ar goll. Roedd yn amlwg bod y darparwr gwasanaeth wedi cynnal ymchwiliad rhannol ac annigonol i'r gŵyn.

## Neges allweddol

Mae diogelwch gwybodaeth yn hanfodol er mwyn gallu cadw cofnodion da. Mae cynnal cyfrinachedd, argaeledd a chywirdeb gwybodaeth yn hanfodol er mwyn sicrhau y gall y dinesydd fod yn hyderus bod cyrff cyhoeddus yn gofalu am eu data.

### Astudiaeth achos

Cwynodd claf i Fwrdd Iechyd am y gofal a'r driniaeth a gawsant. Fel rhan o'r gŵyn gofynnwyd am fynediad i'w cofnodion meddygol. Fodd bynnag, anfonodd y Bwrdd Iechyd gofnodion atynt yn ymwneud â chlaf gwahanol a gwnaethant hyn ar fwy nag un achlysur.

## Hanfodion cadw cofnodion da

Mae arfer da cadw cofnodion mewn sefydliadau yn dibynnu ar aelodau unigol o staff yn gwybod pryd i greu ac arbed cofnodion. Fodd bynnag, mae angen i staff sy'n llunio'r dyfarniadau hyn gael eu cefnogi gan bolisiâu a gweithdrefnau priodol.

Wrth baratoi eu harweiniad i staff, dylai pob corff gyfeirio at Reoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU a Deddf Diogelu Data 2018. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofyniad statudol i sefydliadau gofnodi'n briodol eu prosesau ar gyfer cadw gwybodaeth bersonol a'r penderfyniadau a wneir ynghylch y prosesu hynny.

Dylai cyrff hefyd ystyried eu cyfrifoldebau rheoli cofnodion ehangach yn unol â Chod Ymarfer Adran 46 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r rhain yn cynnwys cael trefniadau ar waith sy'n cefnogi rheoli cofnodion, cael systemau storio effeithlon ac effeithiol ar gyfer cofnodion, a gwybod pa gofnodion sydd ganddynt a ble maent.

Fel arfer da cyffredinol, dylai pob corff ymdrechu i gadw cofnodion swyddogol cywir a thrin yr holl wybodaeth mor agored a thryloyw â phosibl. Dylent hefyd ystyried, fel arfer da, fabwysiadu 'dyletswydd i ddogfennu' - rhwymedigaeth ar staff i greu cofnodion llawn, cywir a chyflawn sy'n dogfennu eu prosesau, eu gweithdrefnau a'u gweithredoedd gwneud penderfyniadau. Byddai hyn yn cynorthwyo awdurdodau cyhoeddus i gydymffurfio'n llawn â'u rhwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth hawliau gwybodaeth.

Gellir cadw cofnodion yn dda trwy ddilyn nifer o egwyddorion allweddol.  
Mae'r rhain yn cynnwys:

Yn aml gall hyn fod ar ffurf nodyn ffeil byr, ond dylid ei wneud trwy gydol y broses benderfynu, ac mor agos â phosibl at wneud penderfyniadau allweddol.

### **Rheoli cofnodion a gwybodaeth yn effeithiol ac yn briodol**

Dylai cyrff nodi'r hyn y dylid ei gadw a dilyn systemau cadw strwythuredig sy'n caniatáu iddynt ddangos bod unrhyw gofnodion a ddinistriwyd wedi'u gwneud fel rhan o arfer busnes arferol.

### **Cael cefnogaeth yr holl staff, yn enwedig uwch reolwyr**

Mae arweinyddiaeth o'r brig yn helpu i greu diwylliant o gadw cofnodion da mewn sefydliadau, gan arwain at fwy o effeithlonrwydd busnes, llai o risg a gwell gwybodaeth gorfforaethol.

### **Hyfforddiant priodol**

Dylai'r holl staff ddeall eu cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion a bod yn ymwybodol o holl bolisïau ac arferion perthnasol eu sefydliad.

### **Defnyddio technolegau gwybodaeth a chyfathrebu yn gywir**

Mae hyn yn golygu sicrhau bod yr holl gyfathrebu a wneir wrth gynnal busnes, gan ddefnyddio'r holl ddulliau neu dechnolegau, yn cael ei integreiddio'n sympathetig i waith cyrff cyhoeddus a bod cofnod cywir o drafodaethau a gwneud penderfyniadau yn cael ei gadw.

## Casgliad

Mae ein hymchwiliadau yn ein helpu i daflu goleuni ar fater cadw cofnodion mewn cyrff cyhoeddus. Mae'r astudiaethau achos a ddewiswyd ar gyfer y cyhoeddiad hwn yn dangos effaith arfer gwael yn y maes hwn ac yn dangos pa mor hanfodol yw ymgorffori cadw cofnodion o ansawdd da ledled y sefydliad.

Yn syml, mae'r enghreifftiau o'r cyhoeddiad hwn a'n profiad ehangach o ymdrin â chwynion yn dangos, boed yn ymwneud â sefydliad neu ddinesydd, bod **rheoli cofnodion yn dda yn bwysig**.

## Amdanom ni

Rydym yn gwasanaethu pobl Cymru mewn 3 ffordd wahanol.

Ein rôl gyntaf yw ymdrin â chwynion am gamweinyddu, methiant gwasanaeth, neu fethiant i ddarparu gwasanaeth gan y mwyafrif o ddarparwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, megis:



Llywodraeth  
Leol



Y GIG (gan gynnwys  
Meddygon Teulu a  
deintyddion)



Landlordiaid  
Cymdeithasol  
Cofrestredig



Llywodraeth Cymru  
a'i chyrrff noddedig

Gellir canfod rhagor o wybodaeth am ein proses ar gyfer ymdrin â chwynion am gyrff cyhoeddus yng Nghymru ar ein gwefan.

Ein hail rôl yw ystyried cwynion bod aelodau etholedig o awdurdodau lleol wedi torri eu Codau Ymddygiad, sy'n nodi'r egwyddorion ymddygiad cydnabyddedig y dylai aelodau eu dilyn mewn bywyd cyhoeddus. Yn y rôl hon, gallwn ystyried cwynion am:



Cynghorau  
Cymuned



Cynghorau Sir a  
Chynghorau  
Bwrdeistref Sirol



Awdurdodau  
Tân



Awdurdodau  
Parciau  
Cenedlaethol

Gellir canfod rhagor o wybodaeth am ein proses ar gyfer ymdrin â chwynion am ymddygiad aelod o awdurdod lleol ar [ein gwefan](#).

Ein trydedd rôl yw ysgogi gwelliannau systematig mewn gwasanaethau cyhoeddus. Yn draddodiadol, rydym wedi gwneud hyn yn bennaf trwy gyhoeddi ein canfyddiadau, er enghraifft mewn adroddiadau diddordeb cyhoeddus ac adroddiadau thematig, llythyrau blynyddol at gyrff yn ein hawdurdodaeth a choflyfrau.

Fodd bynnag, yn 2019, diwygiwyd y Ddeddf a sefydlodd ein swyddfa. Fel rhan o'r diwygiad, cawsom bwerau newydd i ysgogi gwelliannau systematig. Bellach, gallwn ymgymryd ag ymchwiliadau ar ein liwt ein hunain, hyd yn oed pan nad ydym wedi derbyn cwyn. Gallwn hefyd osod safonau cwynion ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru a monitro eu perfformiad wrth ymdrin â chwynion.



# Darllen Pellach

## Deddfwriaeth

- Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006).
- Deddf Mynediad at Gofnodion Meddygol 1990.

## Rheoliad

- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011.
- Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2018.

## Canllawiau

- Gwneud y Peth Iawn: Canllawiau ar ymdrin â phryderon am y GIG o 1 Ebrill 2011. Fersiwn 3 (Tachwedd 2013).
- GIG Cymru: [E-lawlyfr Llywodraethu Safon 20](#) Fersiwn 8.8 (Awst 2005).
- Nyrsio a'r Cyngor Bydwreigiaeth: [Y Cod - Safonau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol ar gyfer nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio](#) Paragraff 10.
- Y Cyngor Meddygol Cyffredinol: [Canllawiau Moesegol ar gyfer Meddygon](#) Paragraff 52 a 58.
- Llywodraeth Cymru: [Cyfrinachedd: Cod Ymarfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru](#). Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Rannu Gwybodaeth a Chyfrinachedd (Awst 2005). (Saesneg yn unig).

## Adroddiadau

- Archwilydd Cyffredinol Cymru: [Systemau gwybodeg yng GIG Cymru](#) (Ionawr 2018).
- Y Fonesig Fiona Caldicott: [Gwybodaeth: Rhannu neu beidio â rhannu? Yr Adolygiad Llywodraethu Gwybodaeth](#) (Mawrth 2013).

## Adnoddau Ar-lein

- [Llywodraethu Gwybodaeth](#): Ar-lein Cefnogaeth i Ddarparwyr y GIG.
- Cymdeithas Feddygol Prydain: [Blaenoriaethau Iechyd: Diogelu a Gwarchod Gwybodaeth i Gleifion](#) - Pecyn cymorth ar-lein.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

1 Ffordd yr Hen Gae

Pencoed

CF35 5LJ

Ffôn: 01656 641150

Ffacs: 01656 641199

Ebost: [holwch@ombudsman.wales](mailto:holwch@ombudsman.wales)

Gwefan: [www.ombwdsmon.cymru](http://www.ombwdsmon.cymru)

Dilynwch ni ar Twitter: [@OmbudsmanWales](https://twitter.com/OmbudsmanWales)